
# TAITH GARN FADRYN

Hyd: **4.75km - 3.0m**




### Cyfarwyddiadau

Cychwyn ger Capel Garn Fadryn (SH278352). Mae lle i barcio i'r gorllewin o'r capel.

- Cerdded i fyny'r llwybr ar hyd ochr ddwyreiniol y capel a throi i'r dde trwy giât yn ei ben uchaf.
- Dilyn wal y mynydd tua'r gogledd-ddwyrain

### I gopa Garn Fadryn

- Dilyn wal y mynydd ond dal i'r chwith i'r llwybr troellog (SH 281348) i fyny'r Garn.
- Parhau i ddilyn y llwybr heibio i garneddi ac i'r chwith tua'r copa.
- Dilyn yr un llwybr i lawr yn ôl at wal y mynydd. (Gellir dychwelyd yr un ffordd i ddechrau'r daith neu ddilyn y gylchdaith o gwmpas godre Garn Fadryn)

### Osgoi cerdded i'r copa ac ymlaen ar Daith Garn Fadryn (Cylchdaith Garn Fadryn: 4.7km - 3 millt.)

- Mynd dros gamfa yn y wal a chroesi'r drwy'r eithin ac i'r tir agored.
- Dal i'r chwith (tua'r gogledd-ddwyrain) ac at y wal
- Gwelir dwy adwy yn y wal. Mynd trwy'r bellaf ohonynt ac at wal ar ben y bryncyn (SH 286352)
- Dewis llwybr dros y bryncyn, dilyn y wal a mynd dros y gamfa.
- Cerdded i lawr y llethr i gyfeiriad Madryn a Phorthdinllaen a dal i'r chwith efo'r wal nesaf.
- Dros y gamfa nesaf a chadw Garn Fadryn ar y chwith a'r wal ar y dde. Yna croesi pompren ac at y coed.
- Mynd dros gamfa gerrig i gae a cherdded efo'r wal (yr ochr isaf iddi) (SH 285357)
- Parhau dros gamfeydd nes dod allan i lwybr llydan ger murddyn (Tŷ'n Ffynnon / Tŷ Ffebi (SH 276357))
- Bydd y llwybr yn rtroi yn ffordd drol ac yna y ffordd dar sydd yn arwain yn ôl i Gapel Garn Fadryn.

**Pethau i'w gweld ar y daith:**



### 1 Bwrdd y Brenin

Darn helaeth o garreg gyda wyneb sy'n union fel bwrdd yn agos at Ffynnon y Brenin.

Mae i'w weld yn amlwg ar y gwastad i'r gogledd o gopa Garn Fadryn. Y brenin y cyfeirir ato, wrth gwrs, yw'r Brenin Arthur.



### 2 Ffynnon y Brenin

Ar ochr ogleddol Garn Fadryn, rhyw 25 m i'r gorllewin o Fwrdd y Brenin - sydd yn garreg anferth a phetryal gyda wyneb fflat. Mae ar y gwastad cyn codi i'r ddringfa serth i'r copa. Mae'n ffynnon eitha dyfn gyda 40cm o ddŵr ynddi. Mae ei hwyneb wedi ei gau'n rhannol â cherrig nes bod yr agoriad yn 40cm x 30cm.

Credid fod dŵr meddyginiaethol ynddi i wella anhwylderau'r llygaid, ac 'yn llesol i wendidau menywaidd, i amhlantadwy ac i bruddglwyf', yn ôl Myrddin Fardd.



### 3 Garn Fadryn

Y prif fynydd yng nghanolbarth Llŷn, yn 371m (1217 tr.) o uchder a'r golygfeydd o'i gopa o Lŷn gyfan yn ysblennydd. Y term daearegol am fynydd fel hyn yw monadnock, sef mynydd yn sefyll fel ynys ar lwyfandir.

*Mwy . . .*

## 3 Garn Fadryn

*Mwy . . .*

Ceir cyfeiriad hiraethus morwyn fach pan gyfeirir ato mewn hen bennill:

> Mi af oddi yma i ben Garn Fadryn
> I gael gwelad Eglwys Nefyn,
> O amgylch hon mae plant yn chwara'
> Lle dymunwn fy mod inna'.

Mae'r ardal yn wledig gyda'i thai ar wasgar ar odre deheuol mynydd Garn Fadryn

Ganwyd Ieuan o Lŷn (John Henry Hughes) (1814 - 1903) yn Ty'n y Pwll. Cyhoeddwyd cyfrol o'i gerddi., 'Caneuon Ieuan o Lŷn' ond cofir amdano fel awdur dau emyn welir yn 'Caneuon Ffydd' - 'Wele wrth y drws yn curo' ac 'O Iesu croeshoeliedig'

Ychydig islaw'r copa ceir enghreifftiau rhagorol o gaer oes yr haearn (600 C.C. a diweddarach). Mae'r adeiladau crynion a elwir yn Gyriau Gwyddelod yn amlwg a cheir olion y muriau amddiffynnol. Mae yma hefyd olion castell o'r G12 a godwyd gan Owain Gwynedd.

Cysylltir yr enw Garn Fadryn â Madren, wyres Gwrtheyrn Gwrtheneu a ddihangodd i Nant Gwrtheyrn, ac yn fam i Ceidio. Bu'n rhaid iddynt hwythau ddianc o Nant Gwrtheyrn i loches ar Garn Fadryn. Cysylltiad arall tebygol yw Garth Madryn yn ardal Talgarth ym Mrycheiniog -.

Dywed traddodiad iddi sefydlu'r eglwys yn Nhrawsfynydd - St. Madryn a'i mab roddod ei enw i blwyf Ceidio, sydd rhwng Garn Fadryn a Nefyn.